

## Pum Hwyaden (Five Little Ducks)

**Pum** hwyaden aeth i'r llyn,  
traed bach du a phlu bach gwyn,  
gwaeddodd Mam yn ddigon crac -  
'**Pedair** sydd ar ôl cwac, cwac!'

**Pedair** hwyaden aeth i'r llyn,  
traed bach du a phlu bach gwyn,  
gwaeddodd Mam yn ddigon crac -  
'**Tair** sydd ar ôl, cwac, cwac!'

**Tair** hwyaden aeth i'r llyn,  
traed bach du a phlu bach gwyn,  
gwaeddodd Mam yn ddigon crac -  
'**Dwy** sydd ar ôl, cwac, cwac!'

**Dwy** hwyaden aeth i'r llyn,  
traed bach du a phlu bach gwyn,  
gwaeddodd Mam yn ddigon crac -  
'**Un** sydd ar ôl, wel cwac, cwac, cwac!'

**Un** hwyaden aeth i'r llyn,  
traed bach du a phlu bach gwyn,  
gwaeddodd Mam yn ddigon crac -  
'Does yr un ar ôl! O! cwac, cwac, cwac!'

Mami aeth am dro i'r llyn,  
traed bach du a phlu bach gwyn.  
Gwaeddodd Mam, 'Dewch, cwac, cwac, cwac!'  
Daeth pawb yn ôl, pob un wan jac!

Mae rhigymau rhif yn  
ffordd wych o ddysgu  
rhifo.

Number rhymes are  
great for learning  
to count.

Mae'r ailadrodd yn hwyl  
ac mae'n helpu plant i  
ddysgu'r geiriau.

The repetition is fun and  
helps children to learn  
the words.



Torrwch ar hyd y llinell a dychwelwch i'r meithrin. Cut along the line and return to nursery.

**Enw: Name:** .....

**Wnest ti fwynhau'r rhigwm hwn?**  
**Did you like this rhyme?**


Gadewch i ni wybod wrth liwio un o'r wynebau.  
Let us know by colouring in one of the faces.

Lliwia seren bob tro y byddi di'n dweud y rhigwm  
Colour a star every time you say the rhyme.




# Pethau i'w gwneud

## Things To Do



Ble mae hwyaid  
yn byw?  
Where do ducks  
live?

Beth maen  
nhw'n ei fwyta?  
What do they eat?



Ydych chi'n  
gwybod stori'r 'Hwyaden  
Fach Hyll'? Chwiliwch ar lein  
amdani a gwrandewch arni  
gyda'ch gilydd.  
Do you know the story of 'The  
Ugly Duckling'? Find it online  
and listen to it together.



Rhigymau rhif hwyliog eraill i'w mwynhau!

Other fun number rhymes to enjoy!

'Pump Afal Coch' ac 'Un Bys, Dau Fys, Tri Bys yn Dawnsio'.

Gallwch fwynhau'r  
rhigwm hwn ar  
Enjoy this rhyme at

[booktrust.org.uk/  
poridrwyystori-  
nursery](http://booktrust.org.uk/poridrwyystori-nursery)



Gyda phwy ddywedaist ti'r rhigwm? Who did you say the rhyme with?

Ble wnest ti ddweud y rhigwm? Where did you say the rhyme?

# Adeiladu Tŷ Bach, Un, Dau, Tri

**(Build a Little House,  
One Two, Three)**

Adeiladu tŷ bach, un, dau, tri,  
To ar ei ben o, a dyna ni.  
Edrych mewn trwy'r ffenest,  
Be welwn ni?  
Llygoden fach yn cysgu....shhh, da chi!  
Llygoden fach yn cysgu yn y tŷ,  
Llygoden fach yn deffro!  
Ffwrdd â hi!

Gall gwneud symudiadau helpu plant i gofio'r geiriau ac ymuno yn y rhigymau.

Making movements can help children to remember the words and to join in with rhymes.

Mae rhigymau gweithredu yn helpu plant i ddatblygu sgiliau echddygol.

Action rhymes help children develop motor skills.



© Darluniau gan Matt Joyce.

Torrwch ar hyd y llinell a dychwelwch i'r meithrin. Cut along the line and return to nursery.

Enw: Name: .....

**Wnest ti fwynhau'r rhigwm hwn?**  
**Did you like this rhyme?**

Gadewch i ni wybod wrth liwio un o'r wynebau.  
Let us know by colouring in one of the faces.

Lliwia seren bob tro y byddi di'n dweud y rhigwm  
Colour a star every time you say the rhyme.



# Pethau i'w gwneud

## Things To Do

Sut mae llygoden yn edrych? Sut mae llygoden yn teimlo?

What does a mouse look like? What does a mouse feel like?

Alli di dynnu llun llygoden? Paid ag anghofio'r gynffon hir!

Can you draw a mouse? Don't forget a long tail!

Wyt ti'n gwybod unrhyw rigymau eraill sy'n sôn am lygod?

Do you know other rhymes with mice in them?



Rhigymau gweithredu eraill i'w mwynhau!

Other action rhymes to enjoy!

'Un Bys Un Bawd yn Symud' a 'Ble mae Bawdyn?'

Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar

Enjoy this rhyme at

[booktrust.org.uk/  
poridrwy-stori-  
nursery](http://booktrust.org.uk/poridrwy-stori-nursery)

Gyda phwy ddywedaist ti'r rhigwm? Who did you say the rhyme with?

Ble wnest ti ddweud y rhigwm? Where did you say the rhyme?

# Fferm Tad-cu

(Old MacDonald had a Farm)

Dewch am dro i fferm Tad-cu,  
I - AI - I - AI - O.  
Ac ar y fferm mae dafad wen,  
I - AI - I - AI - O.  
Gyda 'mê' fan hyn a 'mê' fan draw  
a 'mê, mê, mê, mê', ar bob llaw.  
Dewch am dro i fferm Tad-cu  
I - AI - I - AI - O.

Dewch am dro i fferm Tad-cu,  
I - AI - I - AI - O.  
Ac ar y fferm mae mochyn pinc,  
I - AI - I - AI - O.  
Gyda 'soch' fan hyn a 'soch' fan draw  
a 'soch, soch, soch, soch', ar bob llaw  
Dewch am dro i fferm Tad-cu  
I - AI - I - AI - O.

Dewch am dro i fferm Tad-cu,  
I - AI - I - AI - O.  
Ac ar y fferm mae buwch fawr ddu,  
I - AI - I - AI - O.  
Gyda 'mŵ' fan hyn a 'mŵ' fan draw,  
a 'mŵ, mŵ, mŵ, mŵ' ar bob llaw.  
Dewch am dro i fferm Tad-cu  
I - AI - I - AI - O.

Mae rhigymau anifeiliaid yn aml yn cynnwys synau anifeiliaid hwyliog y bydd plant wrth eu boddau'n eu gwneud.

Animal rhymes often include fun animal sounds which children love to make.

Synau yw'r blociau adeiladu ar gyfer siarad, darllen ac ysgrifennu, felly peidiwch â gofidio am deimlo'n hurt!

Sounds are the building blocks for talking, reading and writing, so don't worry about feeling silly!

© Darluniau gan Matt Joyce.



Torrwch ar hyd y llinell a dychwelwch i'r meithrin. Cut along the line and return to nursery.

Enw: Name: .....

Wnest ti fwynhau'r rhigwm hwn?  
Did you like this rhyme?

Gadewch i ni wybod wrth liwio un o'r wynebau.  
Let us know by colouring in one of the faces.

Lliwia seren bob tro y byddi di'n dweud y rhigwm  
Colour a star every time you say the rhyme.



# Pethau i'w gwneud

## Things To Do


Pa anifeiliaid eraill fyddi di'n eu cael ar fferm? Newidiwch eiriau'r gân i ychwanegu'r anifeiliaid hynny!

What other animals can you find on a farm? Change the words of the song to add those animals!



Rhowch yr anifeiliaid yn y gêm gardiau gyda'i gilydd. Pa greaduriaid rhyfeddol allwch chi eu creu?

Match the animals in the card game. What strange creatures can you make?



**Rhigymau anifeiliaid eraill i'w mwynhau!**

Other animal rhymes to enjoy!

'Hen Frân Fawr Ddu' a 'Llwynog Coch sy'n Cysgu'.

Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar  
Enjoy this rhyme at

[booktrust.org.uk/  
poridrwystori-  
nursery](http://booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery)

Gyda phwy ddywedaist ti'r rhigwm? Who did you say the rhyme with?

Ble wnest ti ddweud y rhigwm? Where did you say the rhyme?

# Ji Ceffyl Bach

(Gee Up Neddy)

Ji ceffyl bach yn cario ni'n dau,  
Dros y mynydd i hela cnau,  
Dŵr yn yr afon a'r cerrig yn slic,  
Cwmpo ni'n dau, wel dyna i chi dric!

Cwyd Robin bach a saf ar dy draed,  
Sych dy lygaid, anghofia'r gwaed,  
Neidiwn ein dau ar ein ceffyl bach gwyn,  
I fyny'r mynydd ac i lawr y glyn.

Ji ceffyl bach dros frigau y coed,  
Fel tylwyth teg mor ysgafn dy droed,  
Carlam ar garlam ar y cwmwl mawr gwyn,  
Naid dros y lleuad ac i lawr at y llyn.

Mae'r rhigymau hyn wedi bod gyda ni ers cenedlaethau. Maen nhw'n aml yn defnyddio geiriau sy'n llai cyfarwydd yn ein hiaith bob dydd, ac maen nhw'n gyswllt â'r gorffennol.

These rhymes have been with us for generations. They often include words that are less common in everyday language and are a connection to the past.



© Darluniau gan Matt Joyce.



Torrwch ar hyd y llinell a dychwelwch i'r meithrin. Cut along the line and return to nursery.

**Enw: Name:** .....

**Wnest ti fwynhau'r rhigwm hwn?**  
**Did you like this rhyme?**

Gadewch i ni wybod wrth liwio un o'r wynebau.  
Let us know by colouring in one of the faces.

Lliwia seren bob tro y byddi di'n dweud y rhigwm  
Colour a star every time you say the rhyme.



# Pethau i'w gwneud

## Things To Do

Os byddet  
ti'n gallu mynd ar gefn  
ceffyl, i ble fyddet ti'n  
mynd? Pam?

If you could ride on  
a horse, where would  
you go? Why?

Alli di wneud  
sŵn clip clop gyda dy geg?  
Neu beth am ddefnyddio  
cwpanau plastig?

Can you make a clip clop  
noise with your mouth?  
Or what about using  
plastic cups?



### Hwiangerddi eraill i'w mwynhau!

Other nursery rhymes to enjoy!

'Mynd Drot Drot' a 'Dacw Mam yn Dŵad'.

Gallwch fwynhau'r  
rhigwm hwn ar  
Enjoy this rhyme at

[booktrust.org.uk/  
poridrwystori-  
nursery](http://booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery)

Gyda phwy ddywedaist ti'r rhigwm? Who did you say the rhyme with?

Ble wnest ti ddweud y rhigwm? Where did you say the rhyme?





### Heno, Heno (Tonight, Tonight)

Heno, heno, hen blant bach,  
Heno heno, hen blant bach.  
Dime dime dime, hen blant bach,  
Dime dime dime, hen blant bach.

Gwely gwely, hen blant bach, (ailadrodd)  
Dime dime dime, hen blant bach (ailadrodd).

Cysgu cysgu, hen blant bach, (ailadrodd)  
Dime dime dime, hen blant bach (ailadrodd).

'Fory 'fory, hen blant bach, (ailadrodd)  
Dime dime dime, hen blant bach (ailadrodd).

Dywedwch y  
rhigyrau bach hyn ar  
adegau gwahanol o'r dydd.  
Gnewch nhw'n rhan o'ch  
trefn arferol.

Say these little rhymes at  
different times of the day  
Make them part of your  
routine.

### Yn y Bore (In the Morning)

Yn y bore - dyma fi  
Molchi, molchi, un dau tri.  
Bwyta brechwast - dyma fi,  
Golchi dannedd, un dau tri.  
Gwisgo'n sydyn - dyma fi,  
Sanau, 'sgidiau - ffwrdd â fi!

Gall rhigyrau mwyn helpu  
eich plentyn i ymlacio.  
Gentle rhymes can help  
your child relax.



© Darluniau gan Matt Joyce.

Torrwch ar hyd y llinell a dychwelwch i'r meithrin. Cut along the line and return to nursery.

Enw: Name: .....

Wnest ti fwynhau'r rhigwm hwn?  
Did you like this rhyme?

Gadewch i ni wybod wrth liwio un o'r wynebau.  
Let us know by colouring in one of the faces.

Lliwia seren bob tro y byddi di'n dweud y rhigwm  
Colour a star every time you say the rhyme.



# Pethau i'w gwneud

## Things To Do



Lliwia fi!  
Colour me in!

Beth arall fyddi di'n ei wneud yn y bore? Alli di newid geiriau'r gân?

What else do you do in the morning? Can you change the words of the song?

Beth fyddi di'n ei wneud gyda'r nos cyn i ti fynd i gysgu?

What do you do at night time before you go to sleep?



Rhigymau eraill i'w mwynhau drwy'r dydd!

Other rhymes to enjoy all day long!

'Golchi Dwylo' a 'Si Hei Lwli'.

Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar  
Enjoy this rhyme at

[booktrust.org.uk/  
poridrwystori-  
nursery](http://booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery)

Gyda phwy ddywedaist ti'r rhigwm? Who did you say the rhyme with?

Ble wnest ti ddweud y rhigwm? Where did you say the rhyme?